

## Grŵp Cyswilt Prosiect Adeiladu Wylfa Newydd

### COFNODION

Nos Iau, 10 Tachwedd 2011, 17.30, Canolfan Dysgu a Datblygu Wylfa

Yn bresennol:

Sefydliad	Enw	Cyfenw
Cyngor Tref Amlwch	Val	Roberts
Ymddiriedolaeth Bodorgan	Melanie	Wymer
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW)	Gwynne	Morris Jones
Syrfêwr Siartredig	Elfed	Williams
Cwmni Cemaes Cyf	Eric	Torr
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru	Iwan	Williams
FUW (Undeb Amaethwyr Cymru)	Heidi	Williams
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Cyngor Ynys Môn	Arwel	Williams
Cyngor Sir Ynys Môn (Amlwch Wledig)	Gareth	Winston Roberts
Cyngor Sir Ynys Môn (Caergybi) / Cyngor Tref Caergybi	Clifford	Everett
Cyngor Sir Ynys Môn (Llaneilian)	Aled	Morris Jones
Cyngor Sir Ynys Môn (Llanbadrig)	William Thomas	Hughes
Canolfan Byd Gwaith	Damian	Hamilton
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Anthony	Hughes
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Elfed	Jones
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Allan	Kerry
Cyngor Cymuned Llanbadrig	Gethin	Williams
Cyngor Cymuned Llaneilian	Helen	Woodcock

Cyngor Cymuned Llanfachraeth	Bleddyn	Rowlands
Cyngor Cymuned Llanfaethlu	J. A	Jones
Cyngor Cymuned Llannerch y Medd	John	Jukes
Aelod Cynulliad Lleol	Ieuan Wyn	Jones AC
Magnox North (Wylfa)	John Idris	Jones
Morgan Evans & Co LTD	Gwilym	Williams
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)	Will	Edwards
Iechyd Cyhoeddus Cymru	Sarah	Andrews
Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn	Dylan	Williams
Cynrychiolydd Cyngor Cymuned Rhosybol	Dave J	Rushworth
Cyd-gyngor Safle Pŵer Niwclear Wylfa / Undeb Unite	Trevor	Roberts
Cymdeithas Amaethyddol Môn/ Clwb Rotari Caergybi	John	Chamberlain
Cyngor Cymuned Tref Alaw	Trevor	Jones
Dŵr Cymru	Angela	Meadows
Ynys Môn – Cyngor ar Bopeth	Jackie	Blackwell
Ysgol Syr Thomas Jones	Callum	Gaskell
Ysgol Syr Thomas Jones	Gemma	Roebuck
Ysgol Syr Thomas Jones (Pennaeth)	Aaron	Bailey
Ysgol Uwchradd Bodedern	Irfon	Morris
Taran Cyf	Aled	Roberts
<b>Aelodau'r Cyhoedd</b>		
Aelodau'r Cyhoedd	Olga	Edwards
	Neil	Edwards
	Leigh	Faulkner
	Mari	Jones

	Mel	O'Hara
<b>Ymddiheuriadau</b>		
Plaid Geidwadol Ynys Môn	Paul	Williams
Ffederasiwn Sefydliad y Merched Ynys Môn	Susan	Pari
Prifysgol Bangor	Paul	Spencer
Cymunedau yn Gyntaf	Mary	Archer
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	Tim	Jones
Cyn Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn	Clive	McGregor
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Cyngor Sir Ynys Môn	Ian	Roberts
Cyngor Cymuned Llanfachraeth a Bodffordd	Derek	Owen
ASEau Lleol (Etholaeth Gogledd Cymru)	Derek	Vaughan
Mechell	Thomas H	Jones
Menter Mechell / Carrog Renewables / Is-gadeirydd GCP	Jac	Jones
NSA – Niwclear	Alli Hunt	Hunt
Arolygiaeth Sefydliadau Niwclear (ONR)	Donald	Urquhart
Cynrychiolydd y Rhaglen Ynys Ynni	Linda	Jones
Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd	John Gwilym	Jones
Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru	Andrew	Forfar
Cyngor Cymuned Tref Alaw	Anna	Jones
Ynys Môn – Cyngor ar Bopeth	Karen	Garrod
Ysgol Uwchradd David Hughes	Brian	Jones
<b>Aelodau'r Cyhoedd</b>		
	Steve	Roberts
	Mark	Thorton

Os yw'ch enw wedi'i hepgor ar ddamwain oddi ar y rhestr hon neu os yw wedi'i gofnodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon 0800 954 9516 neu [ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com](mailto:ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com)

#### **Croeso ac Ymddiheuriadau**

- Agorodd y Cadeirydd Dennis Evans (DE) y cyfarfod a diolchodd i'r aelodau am eu presenoldeb. Derbyniwyd yr ymddiheuriadau.

#### **Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

- Cytunwyd fod cofnodion cyfarfod diwethaf y GCP (Medi 10 2011) yn gofnod cywir o'r digwyddiadau ac fe'u cymeradwywyd gan yr aelodau.

#### **Materion yn codi o'r Cyfarfod Diwethaf**

- *Diweddariad ar Goleg Menai* – Roedd Elwyn Schofield wedi holi faint o'r prentisiaid fyddai'n dod o Ynys Môn.
- Dywedwyd y byddai 23 o'r 30 prentis yn dod o Fôn gyda'r gweddill yn dod o Wynedd.

### **Newyddion Diweddaraf am y Prosiect – Alan Smith, Pennaeth Datblygu Safleoedd yn Horizon**

- *Paratoi ar gyfer Ymgynghori* – Esboniodd Alan Smith (AS) y byddai'r Datganiad o Ymgynghori Cymunedol a gyhoeddir ym mis Rhagfyr yn disgrifio sut y bydd Horizon yn ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â'i gynlluniau.
- *Datblygu'r safle a'r cynlluniau mynediad* – Ers cyfarfod diwethaf y GCP ym mis Medi, mae Horizon wedi cwblhau'r broses o brynu'r safle yn Wylfa. Cadarnhaodd AS y byddai Horizon yn dechrau cael gwared ar rai o'r adeiladau sydd wedi'u cau ag estyll erbyn diwedd y flwyddyn. Byddai'r Cynllun Meistr Bioamrywiaeth yn sicrhau na fyddai dim effeithiau andwyol ar rywogaethau sy'n byw neu'n tyfu o fewn y safle.
- Hyd yma nid oes dim cynlluniau penodol ynghylch defnyddio ffordd osgoi Cemlyn Road/Tregele, ond mae'n bosibl y bydd yn rhaid cau'r ffordd bresennol yn y diwedd ac y bydd yn rhaid dewis llwybr arall o amgylch ffiniau'r safle. Mae tîm Horizon yn ymchwilio i'r mater.
- Esboniodd AS fod angen i Horizon gynnal arolygon amgylcheddol ac ecolegol anymwithiol i wybod pa blanhigion ac anifeiliaid sy'n bresennol ar y tir sy'n ffinio â'r safle. Mewn nifer fach o achosion nid yw Horizon wedi cael caniatâd i gael mynediad ar y tir, ond mae angen data amgylcheddol o ddechrau tymor y gaeaf. Mae wedi gwneud cais am ganiatâd gan y rheoleiddiwr ynni i gael mynediad ar y tir i gynnal yr arolygon. Mae pob tîrfeiddiannwr yn cael eu diweddarau ar lafar a thrwy lythyr.
- *Ffyrdd, traffig a thrafnidiaeth* – Mae gwaith wedi dechrau i asesu anghenion traffig a thrafnidiaeth Horizon ar yr A5025, ac mae Horizon wedi ysgrifennu at dirfeddianwyr i egluro'r broses mae'n ymgymryd â hi ac i'w hysbysu y gellir cysylltu â hwy ynghylch y prosiect hwn. Byddai asiant tir wedyn yn cysylltu â phob tîrfeiddiannwr perthnasol i egluro'r posibilrwydd y bydd angen mynediad ar eu tir i gynnal arolygon. Mae'n bosibl y bydd angen prynu tir i wella ffyrdd, er mwyn sythu troadau, er enghraifft. Bydd manylion am leoliadau arfaethedig llety'r gweithwyr, cyfleusterau Parcio a Theithio a chanolfan logisteg newydd ar gael yn y dogfennau ymgynghori a fydd ar gael i'r cyhoedd y flwyddyn nesaf.
- *Swyddfa'r safle* – Dywedodd AS fod Horizon yn cydweithio'n agos â Magnox i sicrhau perchnogaeth o'r Ganolfan Dysgu a Datblygu yn Wylfa. Bydd yr adeilad yn cael ei adnewyddu a'i ailagor fel Swyddfa Safle Horizon yn gynnar yn 2012. Bydd Canolfan Dysgu a Datblygu Magnox yn symud i gyfleusterau yng Ngholeg Menai.
- *Cyfleoedd pellach i drafod* – Mae cymhorthfa ar gyfer preswylwyr wedi'i drefnu ar gyfer 17 Tachwedd. Bydd yn gyfle i'r rhai sy'n bwy agosaf at y safle i gael sgwrsio wyneb yn wyneb, ac yn gyfrinachol, ag aelodau tîm Horizon, ac i godi unrhyw bryderon sydd ganddynt am y prosiect.

### **Holi ac Ateb**

- Will Edwards (NFU) – gofynnodd am wybodaeth bellach am gynlluniau posibl ar gyfer cyn safle Shell yn Rhosgoch.

Cadarnhaodd AS y bydd yr ymgynghoriad y flwyddyn nesaf yn edrych ar lety gweithwyr mewn nifer o safleoedd addas. Mae'n bosibl na fydd cyfeiriad penodol at safleoedd posibl yn yr ymgynghoriad, gan y bydd yr ymgynghoriad yn cyfeirio at 'barthau' cyffredinol yn y cam cyntaf, ac nid at safleoedd penodol.

- Clifford Everett (Clerc Cyngor Tref Caergybi a Chynghorydd Sir) – gofynnodd ai'r Cyngor Sir fydd yn gyfrifol am ariannu'r gwaith cynnal a chadw ffyrdd a'r costau gwella. Holodd hefyd am ymarferoldeb ailagor rheilffordd y Gaerwen i Rosgoch ac y byddai hyn hefyd yn creu etifeddiaeth.

Dywedodd AS y byddai Horizon yn ariannu unrhyw waith fydd ei angen i wella ffyrdd. Ychwanegodd eu bod wedi ystyried y posibilrwydd o ailagor y rheilffordd, ond y farn oedd y na fyddai'n ymarferol o safbwynt logisteg nac amser.

### **Ieuan Wyn Jones (IWJ) – Aelod Cynulliad Lleol**

- Gwnaeth IWJ y sylwadau canlynol am y prosiect:
  - Nid yw Horizon eto wedi dewis gwerthwyr technoleg. Pan fydd y penderfyniad hwnnw wedi'i wneud, bydd gwybodaeth fwy manwl ar gael ynghylch sawl agwedd bwysig ar y prosiect
  - Dylid croesawu'r Ganolfan Hyfforddi newydd yng Ngholeg Menai, a dylid diolch, yn fwyaf arbennig, i John Idris Jones (Magnox) am ei ymdrechion i wireddu'r cynllun. Bydd busnesau lleol yn elwa ar y fenter.
  - Byddai'n gweithio'n galed i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad at y fenter hon ac yn helpu i gynyddu nifer y prentisiaid.
  - Mae'n ymwybodol y byddai'r posibilrwydd o ddod â nwyddau a deunyddiau i unrhyw safle newydd yn Wylfa ar reilffordd yn ddeniadol, ond mae angen gwella'r ffyrdd hefyd, a dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i ffordd osgoi Llanfachraeth
  - Mae Edwina Hart (y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth) wedi gwneud Ynys Môn yn Ardal Fenter yn seiliedig ar Brosiectau Ynni fel adeiladu gorsaf newydd yn Wylfa. Byddai hyn yn golygu cymorth ychwanegol i fusnesau sy'n gweithio yn y sector hwn.
  - Mae'n ymwybodol iawn o'r diffyg derbyniad ffonau symudol mewn rhai rhannau o Fôn ac mae'n edrych ar ffyrdd o roi sylw i'r broblem rwystredig hon. Mae band eang hefyd yn fater y bydd yn rhoi sylw iddo.

### **Ben Cave – Asesiad Effaith ar Iechyd Wylfa**

- Cafwyd cyflwyniad gan Ben Cave (BC) a chafwyd esboniad ganddo o'r astudiaeth Asesiad Effaith ar Iechyd sy'n cael ei chynnal ar ran Horizon
- Bydd yr astudiaeth yn canfod effeithiau iechyd positif a negyddol arwyddocaol posibl y gwaith o adeiladu a rhedeg yr orsaf bŵer arfaethedig. Bydd yr astudiaeth yn edrych ar gyfleoedd i amddiffyn a gwella iechyd ac i leihau anghydraddoldebau iechyd.
- Cafwyd trosolwg o broses yr Asesiad Effaith ar Iechyd.
- Pwysleisiodd BC bwysigrwydd ymgynghori ac ymgysylltu â phobl Môn.
- Nododd BC y bydd tîm yr Asesiad yn cydweithio'n agos â'r astudiaethau eraill sy'n cael eu cynnal.

## Holi ac Ateb

- Allan Kerry (Cyngor Cymuned Llanbadrig) – gofynnodd pa archwiliadau cychwynnol a oedd wedi'i gwneud i bennu'r hyn a olygir wrth 'linell sylfaen' yn y broses Asesiad Effaith ar Iechyd.

Esboniodd BC y byddent yn edrych ar yr hyn sydd wedi digwydd mewn manau eraill a sut y gellid defnyddio hynny yng nghyd-destun Môn. Byddent wedyn yn ei gymharu â mesurau meintiol ac ansoddol.

- Damien Hamilton (Canolfan Byd Gwaith) – gofynnodd a oedd Asesiad Effaith ar Iechyd ar gael o'r adeg pan adeiladwyd Wylfa A – ac a ellid defnyddio hwnnw i fesur ei effaith heddiw.

Dywedodd BC nad oedd yn gwybod am asesiad o'r fath ac y byddai wedi'i synnu'n fawr pe bai un yn bod. Nid oedd angen Asesiadau o'r fath pan adeiladwyd Wylfa A. Yn wir, nid oedd angen Asesiadau Effaith Amgylcheddol ar y pryd, ac roedd y rheini'n bodoli cyn Asesiadau Effaith ar Iechyd.

- John Chamberlain (Cymdeithas Amaethyddol Môn/ Clwb Rotari Caergybi) – gofynnodd a fyddai Canolfan Iechyd neu Feddygol ar y safle i leihau effeithiau ar feddygfeydd lleol. Roedd problemau eisoes o ran darpariaeth ddeintyddol ddigonol a gwasanaethau ambiwlans sy'n ymateb yn gyflym. Roedd yn poeni y byddai preswylwyr lleol yn cael eu cosbi ymhellach gan y cynllun arfaethedig.

Dywedodd AS y byddai cyfarfod 'Gwasanaeth Golau Glas' â'r heddlu a'r gwasanaethau tân ac ambiwlans yn cael ei gynnal yr wythnos ganlynol i drafod y straen posibl ar wasanaethau lleol ac y byddai ymdrechion yn cael eu gwneud i ganfod mesurau lliniarol. Mae darpariaeth gwasanaethau iechyd yn bwnc sy'n cael ei ystyried yn yr astudiaeth economaidd gymdeithasol.

- Gareth Winston Roberts (Amlwch Wledig) – cytunodd fod trafodaethau o'r fath yn bwysig iawn oherwydd y toriadau i'r gwasanaethau hyn.

## **Rhys Davies CDN Planning (Wales) Ltd – Asesiad Effaith Gymunedol ac Ieithyddol**

- Eglurodd Rhys Davies (RhD) fod ei gwmni, sydd â chanolfannau yng Nghonwy ac Abertawe, wedi ei gomisiynu gan Horizon i gynnal Asesiad Effaith Gymunedol ac Ieithyddol i ganfod effeithiau cyffredinol y gwaith o adeiladu a rhedeg yr orsaf bŵer newydd ar y Gymraeg.
- Yn ystod ei gyflwyniad eglurodd gwmpas a methodoleg yr astudiaeth drwy ddangos eu cysylltiad â phump agwedd ar fywyd cymunedol. Mae gan y pump agwedd wedyn 18 isadran bellach o fewn yr asesiadau.
- Mae grŵp llywio annibynnol wedi'i sefydlu i arwain yr astudiaeth, sy'n cynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Magnox, Menter Môn; Cyngor Sir Ynys Môn a chynrychiolwyr Adran Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd. Bydd hyn, ynghyd ag ymgynghori â bron i 50 o wahanol gyrrff lleol a chenedlaethol, yn galluogi CDN i wneud awgrymiadau adeiladol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl ac i wneud y gorau o unrhyw fuddiannau posibl.

## Holi ac Ateb

- Will Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn, Llanbadrig) – dywedodd ei fod yn bryderus ynglŷn â'r effaith bosibl ar y Gymraeg a siaredir mewn ysgolion wrth i deuluoedd symud i'r ardal pan fydd y gwaith adeiladu arfaethedig ddechrau.
- Damien Hamilton (Canolfan Byd Gwaith) – dywedodd y dylai'r LIA a HIA gydweithio'n agos i liniaru unrhyw risgiau posibl.
- Roedd Aled Morris Jones (Cyngor Sir Ynys Môn, Llaneilian) yn teimlo'n gryf y dylai nifer fawr o swyddi gael ei rhoi i bobl leol i ddiogelu cymunedau lleol. Gellid a byddai arbenigwyr yn cael eu cyflogi o faes ehangach ond teimlai mai un neges gadarnhaol i'w rhoi oedd y byddai pobl leol yn cael blaenoriaeth o ran swyddi.
- Eglurodd Dylan Williams (Ynys Ynni) y byddai Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am ystyried effaith gronnu datblygiad Wylfa a phrosiectau mawr eraill yn Ynys Môn ei hun neu'r cyffiniau, ar y Gymraeg.
- Roedd Gwynne Morris Jones (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig) – yn pryderu am y mewnlifiad posibl o blant di-gymraeg i ysgolion lleol yn ystod y gwaith adeiladu ac roedd yn holi beth fyddai'r effaith ar ysgolion lleol.  
***Torrodd AS ar ei draws i ddweud na fyddai plant yn byw yn llety'r gweithwyr ac felly nid oedd sail i'w bryderon.***
- Irfon Morris (Ysgol Bodedern) – teimlai'n gryf y dylid manteisio ar unrhyw fewnlifiad posibl i'r cymunedau fel cyfle i gynnig addysg Gymraeg i newydd-ddyfodiaid.
- Gerallt Llewelyn Jones (Menter Môn) – teimlai fod dau gyfnod pendant ynghlwm wrth y cynllun newydd hwn, y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredol. Teimlai y byddai effaith y ddau gyfnod yn dra gwahanol ac y byddai'n rhaid ystyried hynny.

Dywedodd RhD y byddai'r Asesiad Effaith Gymunedol ac Ieithyddol yn edrych ar y cyfnod adeiladu, y cyfnod gweithredol a dadgomisiynu.

### **Barrie Cran – Pennaeth Diogelwch Niwclear – Horizon**

- Cafwyd trosolwg gan Barrie Cran (BC) o'r hyn a ddigwyddodd yng ngorsaf pŵer niwclear Fukushima yn Japan, a dywedodd fod daeargryn grymus a tsunami wedi llenwi generaduron wrth gefn a ddefnyddid i oeri adweithyddion. Roedd hwn yn ddigwyddiad eithafol, a hynny mewn gwlad sydd wedi arfer â digwyddiadau eithafol.
- Amlinellodd gymwysterau Prif Arolygydd Niwclear y DU, Dr Mike Weightman, sy'n uchel ei barch yn rhyngwladol, a nododd brif bwyntiau'r adroddiad yr oedd yr Ysgrifennydd Gwladol Chris Huhne wedi gofyn iddo'i baratoi.
- Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd fis Hydref yn rhestru cyfres o argymhellion ar gyfer diwydiant niwclear y DU.
- Cadarnhaodd fod Horizon Nuclear Power yn cefnogi pob un o gasgliadau Dr Weightman ac ar ôl cyfnod o astudio manwl a chynhwysfawr, ni chanfu Dr Weightman ddim rheswm pam na ddylai'r DU barhau â'i chynllun niwclear.

- Argymhellodd adroddiad Dr Weightman i'r aelodau fel dogfen ddealladwy ac eglurodd fod Horizon ar hyn o bryd yn ystyried y ffordd orau o ymgorffori argymhellion Dr Weightman i'w gynigion.

### Holi ac Ateb

- John Idris Jones (Magnarx) – cadarnhaodd fod yr achos diogelwch ar gyfer yr orsaf pŵer niwclear Magnox bresennol yn Wylfa wedi'i adolygu'n rheolaidd yn erbyn safonau modern fel y mae'n ofynnol yn ôl trwydded y safle. Lle mae angen, mae gwelliannau ffisegol wedi'u gwneud fel y bydd y safle'n gallu gwrthsefyll digwyddiadau prin ac eithafol iawn (1 mewn 10000 o flynyddoedd) fel llifogydd, gwyntoedd cryfion a thonnau.

Wrth ateb, dywedodd Barrie Cran mai dim ond tsunamis isel a gafwyd yn ystod y can mlynedd diwethaf. Roedd un wedi tarddu o ardal Lisbon, tua 500 mlynedd yn ôl, ac roedd ei uchder tua 1.5 metr erbyn iddo gyrraedd Cernyw. Bwriedir i'r dyluniad terfynol fod 10 metr yn uwch na'r marc penllanw.

### Unrhyw Fater Arall

- Gwahoddwyd yr aelodau i awgrymu eitemau ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf. Gofynnodd Will Edwards (NFU) am gyflwyniad pellach gan y Grid Cenedlaethol. Roedd AS yn siŵr y byddai'r Grid Cenedlaethol yn hapus i ddod atynt i roi diweddariad, ond efallai na fydd ganddynt ddim byd newydd i'w ychwanegu ar hyn o bryd.
- Cyfeiriodd John Chamberlain (Cymdeithas Amaethyddol Môn/ Clwb Rotari Caergybi) at sylw cynharach a wnaethpwyd gan AS wrth gyfeirio at ddiffyg dŵr posibl yn Llyn Alaw erbyn 2017. Gofynnodd sut y caiff hynny ei oresgyn a sut y gellid diwallu'r angen am ddŵr yn ystod unrhyw waith adeiladu newydd yn Wylfa heb effeithio ar gyflenwadau'r Ynys.

Dywedodd AS fod hwn yn faes sy'n cael ei ystyried. Mae Horizon a'r ddau gwmni posibl a fydd yn cyflenwi'r adweithydd yn edrych ar y mater, ond mae canlyniadau ei astudiaethau cychwynnol yn dangos y bydd Ynys Môn yn fewnforiwr dŵr net erbyn 2017 beth bynnag fydd y penderfyniad o ran adeiladu gorsaf bŵer newydd felly mae angen ystyried uwchraddio'r seilwaith. Mae astudiaethau'n cael eu cynnal i ganfod a fyddai'r galw ychwanegol yn ystod y cyfnod adeiladu yn creu problem i Ddŵr Cymru.

Pe byddai'r astudiaethau'n dangos galw ychwanegol am ddŵr, eglurodd AD mai un ateb fyddai adeiladu gwaith dihalwyno ar y safle. Ateb arall sydd eisoes yn cael ei ystyried yn fanwl yw atgyfnerthu'r cyflenwad dŵr o'r tir mawr i Ynys Môn. Cadarnhaodd Iwan Williams (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru) fod y drafodaeth hon ar waith rhwng Horizon a Dŵr Cymru.

### Cau'r Cyfarfod

- Bydd dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf yn cael ei ddsbarthu yn y man. Dymunodd y Cadeirydd gyfarchion y tymor i bawb.